Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

# Gwneud cais am gofrestru

# o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig

Fersiwn 2018

Os ydych chi'n dymuno gweithio fel osteopath yn y DU, mae'n rhaid i chi gofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor). O dan Ddeddf Osteopathiaid 1993, mae'r teitl 'osteopath' wedi'i ddiogelu gan y gyfraith ac felly mae'n drosedd yn y DU i unrhyw un honni'n benodol neu awgrymu ei fod yn unrhyw fath o osteopath os nad yw wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor.

## Beth rydym yn ei wneud:

Rôl y Cyngor yw rheoleiddio a datblygu ymarfer osteopathig yn y DU trwy wneud y canlynol:

- Gosod a hyrwyddo safonau uchel o ymarfer ac ymddygiad osteopathig.
- Sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant osteopathig.
- Cofrestru gweithwyr proffesiynol cymwysedig bob blwyddyn a sicrhau eu haddasrwydd parhaus i ymarfer.
- Helpu cleifion sydd â phryderon neu gwynion am osteopathiaid ac ymdrin â'r cwynion hynny trwy weithdrefnau addasrwydd i ymarfer.

## Cynnwys

### Gwneud cais am gofrestru


1. **A allaf ymarfer yn y DU?**
2. **Beth sydd angen i mi ei wneud i gofrestru?**

   **Cam 1: Dechrau'r broses**

   - **Sut mae fy hyfforddiant a'm profiad yn cael eu hasesu?**

   **Cam 2: Holiadur Tystiolaeth Bellach o Ymarfer**

   **Cam 3: Asesiad o Berfformiad Clinigol**

3. **Caiff fy hyfforddiant a'm profiad eu hystyried yn gyfwerth â safonau'r DU. A oes angen i mi wneud unrhyw beth arall i gofrestru?**


### Pecyn cais cofrestru


1. **Ffurflen gais**
2. **Geirda iechyd**
3. **Geirda cymeriad**
4. **Gwiriad cofnodion troseddol o'ch gwlad breswyl**
5. **Dogfennau wedi'u cyfieithu**
6. **Yswiriwr Indemniad Proffesiynol arfaethedig**
7. **Tâl cofrestru**
8. **Rhagor o wybodaeth**

## Gwneud cais am gofrestru

### 1. A allaf ymarfer yn y DU?

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) yw'r awdurdod cymwys ar gyfer osteopathi yn y DU. Er mwyn ymarfer yn y DU, bydd angen i chi fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor.

### 2. Beth sydd angen i mi ei wneud i gofrestru?

Er mwyn penderfynu a oes modd eich cofrestru, bydd angen i'r Cyngor asesu eich hyfforddiant, eich cymhwyster a'ch profiad er mwyn sicrhau eu bod yn gyfwerth â safonau'r DU. Mae safonau'r DU i'w gweld yn y Safonau Ymarfer Osteopathig.

#### Cam 1: Dechrau'r broses

Er mwyn dechrau'r broses o wneud cais am gofrestru bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- eich manylion cyswllt
- prawf o genedligrwydd – copi o'ch pasbort
- prawf o gymhwyster – copi ardystiedig o'ch cymhwyster osteopathig proffesiynol
- copi ardystiedig o'ch trawsgrifiad academaidd, sy'n amlinellu'ch canlyniadau ar gyfer pob modiwl a astudiwyd
- canllaw/llawlyfr cwrs sy'n amlinellu'r modiwlau a astudiwyd, ym maes osteopathi yn benodol
- tystiolaeth eich bod wedi'ch cofrestru gyda'r corff rheoleiddiol yn eich gwlad wreiddiol (os yw'n berthnasol)
- tystiolaeth o'ch gallu i gyfathrebu yn Saesneg. Gweler ein taflen Gofynion y prawf Saesneg am fanylion llawn y profion derbyniol a'r graddau/lefelau gofynnol. Nid yw hyn yn berthnasol i ymgeiswyr o Awstralia, Canada, Seland Newydd ac Unol Daleithiau America sy'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf.

**Sut mae fy hyfforddiant a'm profiad yn cael eu hasesu?**

Bydd y dogfennau rydych chi'n eu hanfon at y Cyngor yn cael eu hasesu yn erbyn safonau'r DU gan ddau osteopath cymwysedig sydd wedi'u hyfforddi fel aseswyr cofrestru hefyd[1].

Gall gymryd hyd at bedair wythnos i gwblhau'r asesiad. Ar ôl ei gwblhau, bydd y Cyngor yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am y canlyniad a'r hyn sydd angen i chi ei wneud nesaf. Codir tâl o £690 am y cam hwn yr asesiad.

## Cam 2: Tystiolaeth Bellach o Ymarfer

Bydd angen i chi gwblhau Tystiolaeth Bellach o Ymarfer. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y ddogfen Holiadur Tystiolaeth Bellach o Ymarfer: Canllawiau i Aseswyr ac Ymgeiswyr.

Mae'r holiadur yn gofyn i chi am eich ymarfer, a bydd angen i chi ddarparu enghreifftiau o agweddau penodol ar ymarfer lle rydych chi wedi ysgwyddo cyfrifoldeb clinigol llawn. Hefyd, bydd angen i chi gynnwys hanes achosion a chyflwyniadau clinigol, a dylech gyflwyno copïau dienw o'ch cofnodion clinigol. Dylai'r enghreifftiau hyn fod mor ddiweddar â phosibl, ac yn ddelfrydol dylent ddeillio o'ch dwy flynedd ddiwethaf o ymarfer.

Chi sy'n gyfrifol am gyflwyno gwybodaeth sy'n dangos eich bod yn gallu bodloni'r safonau diogelwch, gwybodaeth a sgiliau clinigol gofynnol. Os na allwch chi ddarparu cofnodion cleifion am resymau dilys, rhaid i chi egluro'r rheswm pam wrth y Cyngor cyn cwblhau'r holiadur.

Codir tâl o £690 am y ffurflen.

Os ydych chi'n llwyddiannus, gallwch gamu ymlaen i gam nesaf y broses asesu, sef Asesiad o Berfformiad Clinigol.

## Cam 3: Asesiad o Berfformiad Clinigol

Mae Asesiad o Berfformiad Clinigol yn arholiad ymarferol seiliedig ar gymhwysedd a gynhelir yn y DU, ac mae'n cynnwys cleifion byw mewn lleoliad clinigol. I gael rhagor o wybodaeth gweler Asesiad o Berfformiad Clinigol: Canllawiau ar gyfer Ymgeiswyr ac Aseswyr.

Codir tâl o £910 am Asesiad o Berfformiad Clinigol. Os ydych chi'n llwyddo yn yr Asesiad gallwch wneud cais i gofrestru.

[1] Mae gwybodaeth am yr **aseswyr ac am Asesiadau o Berfformiad Clinigol** sydd ar y gweill ar gael yn: www.osteopathy.org.uk/training-and-registration/how-to-register-with-the-gosc/assessments-and-assessors/

**3. Caiff fy hyfforddiant a'm profiad eu hystyried yn gyfwerth â safonau'r DU. A oes angen i mi wneud unrhyw beth arall i gofrestru?**

Byddwn ni'n anfon y ffurflenni cais atoch chi. I gael rhagor o wybodaeth am y pecyn ymgeisio a sut i'w gwblhau, darllenwch adran nesaf y llyfryn hwn.

Er mwyn i ni ystyried eich cais i gofrestru, rhaid i chi anfon yr HOLL ddogfennau canlynol:

- ffurflen gais i gofrestru wedi'i chwblhau
- geirda iechyd
- geirda cymeriad
- gwiriad cofnodion troseddol o'ch gwlad breswyl
- tâl mynediad

Anfonwch y dogfennau i:
Registration Department
General Osteopathic
Council Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
London SE1 3LU

**Ar ôl i ni dderbyn eich holl ddogfennau, gallai gymryd hyd at bum diwrnod i'ch enw gael ei gofnodi yn y Gofrestr.**

**Ni allwch weithio fel osteopath nes bod y Cofrestrydd wedi ysgrifennu atoch yn cadarnhau eich cofrestriad, a'ch bod wedi rhoi'ch polisi yswiriant ar waith os ydych chi'n bwriadu ymarfer yn y DU.**

**Ar ôl i chi dderbyn eich polisi yswiriant, mae angen i chi anfon copi o'r ddogfen yswiriant i registration@osteopathy.org.uk**

## Pecyn cais cofrestru

### 1. Ffurflen gais

Dylech lofnodi a dyddio'r datganiad ar du blaen y ffurflen gais (darllenwch gwestiynau'r ffurflen gais yn ofalus) a'r datganiad diogelu data. Cofiwch sicrhau bod yr HOLL gwestiynau wedi'u hateb, oherwydd bydd methu â gwneud hynny yn arafu'r broses gofrestru.

### 2. Geirda iechyd

Rhaid i eirda iechyd gael ei lofnodi gan feddyg teulu sydd wedi eich adnabod ers o leiaf bedair blynedd NEU gan feddyg teulu sydd â mynediad at eich cofnodion meddygol am y pedair blynedd diwethaf (mae'n bosibl y codir tâl bach am hyn) ac nad yw'n perthyn i chi.

Cofiwch sicrhau bod eich meddyg teulu'n ticio'r blwch priodol wrth gwblhau'r geirda iechyd er mwyn osgoi oedi yn y broses ymgeisio.

Os nad ydych wedi'ch cofrestru gyda meddyg teulu ac na allwch ddarparu geirda iechyd, e-bostiwch yr adran gofrestru (registration@osteopathy.org.uk) i egluro'r rheswm pam na allwch gael geirda iechyd wedi'i lofnodi gan eich meddyg teulu. Bydd yr adran gofrestru yn eich cynghori sut i fwrw ymlaen â'ch cais.

### 3. Geirda cymeriad

Rhaid i'r geirda cymeriad gael ei lofnodi gan unigolyn mewn swydd broffesiynol sydd wedi eich adnabod ers o leiaf bedair blynedd ac nad yw'n perthyn i chi.

Dyma enghreifftiau o swyddi proffesiynol addas (nid yw'n rhestr gynhwysfawr):

| | |
|---|---|
| Cyfrifydd | Aelod Seneddol |
| Clerc erthygledig mewn cwmni cyfyngedig | Swyddog yn y llynges fasnachol/lluoedd arfog |
| Asiant gwarantu mewn cwmni cydnabyddedig | Gweinidog crefydd gydnabyddedig |
| Swyddog banc/cymdeithas adeiladu | Nyrs (SRN ac SEN) |
| Bargyfreithiwr | Optegydd |
| Brocer | Osteopath |
| Cadeirydd/cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig | Unigolyn ag anrhydedd (e.e. OBE, MBE ac ati) |
| Fferyllydd | Ffotograffydd (proffesiynol) |
| Ciropodydd | Swyddog heddlu |
| Ymarferydd Seientiad Cristnogol | Swyddog y Swyddfa Bost |

Gwas sifil (parhaol)
Comisiynydd Llwon
Cynghorydd: lleol neu sir
Deintydd
Peiriannydd (gyda chymwysterau proffesiynol)
Swyddog y gwasanaeth tân
Trefnwr angladdau
Asiant yswiriant mewn cwmni cydnabyddedig
Newyddiadurwr
Ynad Heddwch
Rheolwr/swyddog personél
Meddyg meddygol
Llywydd/ysgrifennydd sefydliad
Swyddog Byddin yr Iachawdwriaeth
Gweithiwr cymdeithasol
Cyfreithiwr/cyfreithiwr adfocad
Pensaer
Athro, darlithydd
Swyddog undeb llafur
Asiant teithio (cymwysedig)
Prisiwr/arwerthwr (Cymrawd/Aelod Cyswllt o'r Gymdeithas Gorfforedig)
Swyddogion gwarant a phrif is-swyddogion

## 4. Gwiriad cofnodion troseddol o'ch gwlad breswyl

Mae'n ofyniad gan y Cyngor i ymgeiswyr gwblhau gwiriad cofnodion troseddol yn y wlad lle maen nhw'n preswylio.

Os ydych chi eisoes wedi symud i'r DU, bydd angen i chi gwblhau Gwiriad Manylach ar gyfer Gweithgaredd a Reoleiddir drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn y DU.

I gael gwybodaeth am sut i gael Gwiriad Manylach ar gyfer Gweithgaredd a Reoleiddir yn y DU, e-bostiwch yr adran gofrestru: registration@osteopathy.org.uk

Ni all eich gwiriad cofnodion troseddol na'ch Gwiriad Manylach ar gyfer Gweithgaredd a Reoleiddir (os yw'n ofynnol) fod yn hŷn na chwe mis ers dyddiad ei gyhoeddi adeg eich cais i gael eich cynnwys ar y gofrestr.

## 5. Dogfennau wedi'u cyfieithu

Rhaid cael cyfieithiad Saesneg ardystiedig gyda phob dogfen sydd mewn iaith heblaw Saesneg. Mae cyfieithiad ardystiedig yn gyfieithiad o ddogfen o un iaith i iaith arall gan gyfieithydd proffesiynol gyda chadarnhad bod y cyfieithydd yn wybodus yn y ddwy iaith a bod y cyfieithiad yn gyflawn ac yn gywir.

Mae angen i'r cyfieithydd lofnodi neu stampio'r cyfieithiad i gadarnhau'r pwyntiau uchod.

Gall cyfieithiad gael ei gwblhau gan asiantaeth gyfieithu swyddogol, adran iaith prifysgol neu Lysgenhadaeth Prydain neu'r Uchel Gomisiwn.

Mae angen argraffu pob cyfieithiad ar bapur sy'n cynnwys enw swyddogol y sefydliad ac enw a llofnod y cyfieithydd.

## 6. Yswiriant Indemniad Proffesiynol Arfaethedig

Ar ôl i chi gofrestru, rhaid i chi sicrhau bod gennych chi Yswiriant Indemniad Proffesiynol sydd â sicrwydd yswiriant o £5 miliwn o leiaf. Rhaid i'ch yswiriant fod yn briodol i'ch anghenion proffesiynol a bodloni gofynion Rheolau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

Ar ôl cofrestru, ond cyn i chi ddechrau ymarfer, rhaid i chi sicrhau bod eich polisi Yswiriant Indemniad Proffesiynol wedi dechrau.

Rhaid i chi anfon copi o'ch polisi yswiriant i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol os ydych chi'n bwriadu ymarfer yn y DU.

Gall y cyfryngwyr yswiriant canlynol gynnig cyngor i chi ar yswiriant indemniad proffesiynol sy'n bodloni eich gofynion:

**Balens Insurance Brokers**
01684 580 771
www.balens.co.uk

**Institute of Osteopathy**
01582 488 455
www.osteopathy.org

**Howdens Insurance Brokers**
020 7623 3806
www.howdengroup.com

**Three Counties Insurance**
01789 204 803
www.3co.co.uk

**Towergate MIA**
01438 739 777
www.towergatemia.co.uk

## 7. Tâl cofrestru

Rhaid talu £320 i gofrestru.

Gallwch dalu'r ffi gyfan neu drefnu i wneud 10 rhandaliad misol trwy Ddebyd Uniongyrchol os oes gennych gyfrif banc yn y DU. Os ydych chi'n talu mewn rhandaliadau misol, y cyfanswm sy'n daladwy yw £330.

## 8. Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych chi gwestiwn nad ydynt wedi'u hateb yn y llyfryn hwn, cysylltwch â'r adran gofrestru trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt ar y dudalen nesaf.

## Manylion cyswllt y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

**Rheolwr Cofrestru**
Ben Chambers
x256
bchambers@osteopathy.org.uk

**Uwch Swyddog Cofrestru**
Rachel McCoubrey
x229
rmccoubrey@osteopathy.org.uk

**Gweinyddwr Cofrestru**
Mohammed Sherali
x229
msherali@osteopathy.org.uk

**Swyddog Cofrestru a Cheisiadau Tramor**
Lorraine Palmer
x238
lpalmer@osteopathy.org.uk

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
Llundain
SE1 3LU
Ffôn: 020 7357 6655

www.osteopathy.org.uk

www.facebook.com/goscnews https://twitter.com/gosc_uk